# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR

## CYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DDYDD IAU, 7 EBRILL 2016 AM 5.00 PM

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd D W W Thomas (Aelod Llywyddol) a fu'n llywyddu

| Cynghorydd(wyr) | Cynghorydd(wyr) | Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | J E Burtonshaw |
| M C Child | R A Clay | U C Clay |
| A C S Colburn | D W Cole | A M Cook |
| S E Crouch | J P Curtice | N J Davies |
| A M Day | P Downing | C R Doyle |
| V M Evans | C R Evans | W Evans |
| E W Fitzgerald | R Francis-Davies | F M Gordon |
| J A Hale | J E C Harris | T J Hennegan |
| C A Holley | P R Hood-Williams | B Hopkins |
| D H Hopkins | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | A J Jones | S M Jones |
| J W Jones | E J King | R D Lewis |
| D J Lewis | A S Lewis | C E Lloyd |
| P Lloyd | K E Marsh | P M Matthews |
| P N May | P M Meara | H M Morris |
| D Phillips | J A Raynor | T H Rees |
| I M Richard | P B Smith | R V Smith |
| R C Stewart | D G Sullivan | G J Tanner |
| C M R W D Thomas | L G Thomas | M Thomas |
| G D Walker | T M White | |

191. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J C Bayliss, J Newbury, G Owens, C L Philpott, C Richards, C Thomas, L Tyler-Lloyd ac L V Walton.

192. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor am y buddiannau personol a rhagfarnol a oedd efallai ar agenda Cynghorwyr a/neu Swyddogion.

Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi atgoffa'r Cynghorwyr a Swyddogion y dylid cwblhau'r daflen "Buddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y Cynghorydd/Swyddog fuddiant gwirioneddol i'w ddatgan. Nid oedd angen

dychwelyd ffurflenni. Hysbyswyd y Cynghorwyr a Swyddogion fod rhaid datgan unrhyw fuddiant ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datgelwyd y buddiannau canlynol:

**Cynghorwyr**

1) Datgelodd y Cynghorwyr P M Black, R Francis-Davies, C A Holley, P N May, R C Stewart ac L G Thomas Fudd Personol yng Nghofnod 193 "Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Mel Nurse";

**Swyddogion**

2) Datganodd Mike Hawes a Chris Sivers Fudd Personol a Rhagfarnol yng Nghofnod 194 "Strwythur Uwch-reolwyr", a gadawodd y cyfarfod cyn i'r mater gael ei ystyried.

3) Datganodd Phil Roberts Fudd Personol a Rhagfarnol yng Nghofnod 196 "Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymddeoliad Cynnar", a gadawodd y cyfarfod cyn i'r mater gael ei ystyried.

## 193. RHYDDID ER ANRHYDEDD DINAS A SIR ABERTAWE I MEL NURSE.

Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor a oedd yn ceisio ystyriaeth ynglŷn â chyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Mel Nurse, i gydnabod ei gyfraniad at chwaraeon a'r Ddinas, yn enwedig ei gyfranogaeth ac arweinyddiaeth allweddol wrth achub Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cyflwyno Rhyddid er Anrhydedd Dinas a Sir Abertawe i Mel Nurse i gydnabod ei gyfraniad i chwaraeon a'r Ddinas, yn enwedig ei gyfranogaeth ac arweinyddiaeth allweddol wrth achub Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

## 194. STRWYTHUR UWCH-REOLWYR.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Lleoedd a oedd yn cynnig Strwythur Uwch-reolwyr a oedd yn addas at y diben.

**PENDERFYNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo'r strwythur yn amodol ar yr ymgynghoriad, fel a fanylir yn yr adroddiad;

2) Awdurdodi'r Prif Weithredwr i ymgynghori â'r holl staff y bydd hyn yn effeithio;

3) Awdurdodi'r Prif Weithredwr i roi'r strwythur ar waith yn amodol ar argymhelliad 2) heb nodi unrhyw newid sylweddol;

4) Nodi'r gostyngiad yn nifer yr uwch-swyddi a'r arbediad blwyddyn lawn blynyddol canlynol o ychydig dros £300,000;

5) Bod y Prif Weithredwr yn adrodd nôl i'r cyngor am unrhyw 'gostau newid' ac ynghylch dyrannu dyletswyddau ar ôl yr ymgynghoriad.

**Sylwer:** Roedd Arweinydd y Cyngor wedi atgoffa'r Cynghorwyr y byddai Dean Taylor, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gadael yr awdurdod cyn bo hir. Ar ran yr holl Cynghorwyr, diolchodd yntau, Arweinydd yr Wrthblaid Wleidyddol Fwyaf, a'r Aelod Llywyddol i Mr Taylor am ei wasanaethau i Ddinas a Sir Abertawe.

## 195. GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r cyngor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth iddo ystyried yr eitem(au) busnes a nodwyd yn yr argymhellion adroddiad(au) ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff cau allan Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, sy'n berthnasol i'r eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriwyd prawf budd y cyhoedd gan y cyngor wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol, fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) busnes canlynol.

**SESIWN DDIRGEL**

## 196. PRIF SWYDDOG GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - YMDDEOLIAD CYNNAR.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cais am ymddeoliad cynnar gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**CYTUNWYD** y dylid:

1) Cymeradwyo'r cais am ymddeoliad cynnar gan Brif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol fel a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.31 pm

**CADEIRYDD**